Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Canolfan Gofal Plant Spring at Lilypad, RAF y Fali**

**RAF y Fali**
**Y Fali**
**Caergybi**
**LL65 3NY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

21/04/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Canolfan Gofal Plant Spring at Lilypad, RAF y Fali

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Gweithredu dros Blant |
| Lleoedd cofrestredig | 68 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth ers ei gofrestru ar 18 Ebrill 2019. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nac ydy |

## Crynodeb

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19; felly, gwnaethom ganolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan. Gwnaethom dreulio cyfnod byr yn y gwasanaeth, er mwyn arsylwi ar y gofal a roddir a'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant. Edrychwyd ar wybodaeth ychwanegol a chafwyd trafodaethau pellach â'r arweinwyr, y staff a'r rhieni yn rhithiol.

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo. Maent yn adnabod y staff sy'n gofalu amdanynt, ac yn mwynhau treulio amser gyda'u ffrindiau. Maent yn cadw'n brysur yn chwarae â theganau ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau llawn hwyl. Caiff y plant eu hannog i rannu a chymryd eu tro, a gyda help ac arweiniad, maent yn dysgu sgiliau newydd.

Mae'r staff yn frwdfrydig ac yn mwynhau eu gwaith. Mae ganddynt agwedd gadarnhaol ac maent yn ymrwymedig i ddarparu gofal o ansawdd da i'r plant. Cânt fudd o gyfleoedd rheolaidd i gwblhau hyfforddiant ystyrlon, gan olygu eu bod yn meithrin sgiliau newydd, ac maent yn hyderus i roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio.

Mae'r amgylchedd yn diwallu anghenion y plant; mae teganau ar gael yn hawdd, a gall y plant ddewis cymryd rhan yn y gweithgareddau a drefnir neu eistedd mewn ardal dawel ac ymlacio. Mae asesiadau risg manwl yn helpu i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, a chaiff amserlenni glanhau cadarn eu dilyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn gweithio i roi nifer o newidiadau cadarnhaol ar waith, er budd y plant. Maent yn arwain y gwasanaeth yn dda ac yn sicrhau bod y staff yn cael gwybodaeth am arferion gorau cyfredol ym maes gofal plant. Mae'r rhieni'n gwerthfawrogi'r gwasanaeth yn fawr, ac mae'r diweddariadau manwl rheolaidd a gânt yn golygu eu bod yn gwbl ymwybodol o gynnydd eu plant.

| Llesiant | Nid Oes Angen Rhoi Gradd |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus. Maent wedi setlo'n dda, ac mae'r staff wedi rhoi o'u hamser i ddod i adnabod y plant a'u teuluoedd. Gwelsom fod y plant yn archwilio eu hamgylchedd yn rhydd, gan symud o un lle i'r llall yn hawdd ac yn hyderus. Mae gan y plant gydberthnasau cynnes ac ystyrlon â'r staff. Er enghraifft, ar ôl i'r plant orffen bwyta a sychu eu hwynebau â llieiniau unigol, roeddent yn cofleidio ei gilydd ac yn rhoi pawen lawen i'w gilydd heb gael eu hannog i wneud hynny. Mae'r plant yn adnabod ei gilydd wrth eu henwau ac yn dechrau gwneud ffrindiau.

Caiff y plant eu gwerthfawrogi'n fawr a'u cefnogi'n dda. Roeddent yn sgwrsio'n rhwydd â'r staff, a oedd yn help iddynt oresgyn sefyllfaoedd heriol. Er enghraifft, pan oedd plentyn arall yn chwarae â theganau roeddent eisiau chwarae â nhw, roedd y staff wrth law i gyfeirio sylw'r plant, a'u hannog i roi cynnig ar weithgaredd arall. Mae'r plant yn gwneud cynnydd oherwydd y sylw unigol y maent yn ei gael. Cafodd plentyn a oedd yn edrych ar lyfr stori gymorth gan aelod o'r staff; gwnaethant eistedd gyda'i gilydd i ddarllen y stori, gan ddisgrifio'r hyn roeddent yn ei weld yn y lluniau wrth iddynt fynd drwy'r llyfr. Mae'r plant yn rhannu eu cyflawniadau â'u rhieni â balchder. Dywedodd y rhieni hynny y gwnaethom siarad â nhw fod eu plant yn dod adref yn hapus, ac yn canu'r caneuon roeddent wedi'u dysgu yn y feithrinfa.

Mae'r plant yn gwneud eu dewisiadau cadarnhaol eu hunain am y ffordd y maent am dreulio eu hamser. Gwnaethom eu clywed yn dweud wrth y staff eu bod am fynd allan i chwarae yn yr awyr agored. Cafodd y drws, a oedd wedi bod yn gilagored er mwyn gadael i'r aer gylchredeg, ei agor led y pen er mwyn bodloni eu cais. Aeth y plant i chwilio am eu cotiau eu hunain, gan gael help gan y staff i'w gwisgo os oedd angen. Gwnaethom eu gweld yn chwarae'n dda â'r plant o'u cwmpas; yn rasio ei gilydd yn y ceir tegan, yn 'paentio' wal â dŵr ac yn gofalu am eu babanod yn y pramiau. Gwnaethant gymryd eu tro ar y beiciau ac eitemau chwarae eraill.

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae, ac yn ymgysylltu ag ef. Gwelsom grŵp o blant yn mwynhau chwarae â photeli wedi'u llenwi â gliter; gwnaethant wahodd plant eraill i ddod i ymuno â nhw, gan rannu'r poteli ymhlith ei gilydd. Gwnaethant ddweud wrth naill a llall beth roeddent yn gallu ei weld. Mae'r plant yn cydweithredu'n dda â'i gilydd ac yn gyfforddus yn sgwrsio'n hapus â'i gilydd.

Mae'r plant yn gyfarwydd â threfn y dydd ac yn teimlo'n hyderus yn ei chylch. Ar ôl cinio, roedd y plant hŷn yn gwybod y gallent fynd yn syth allan i chwarae, tra bod y plant iau yn ymlacio cyn cael cyntyn.

Mae'r staff yn ceisio rhoi arferion gorau ar waith mewn perthynas â chadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.  Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu yn ddiweddar. Maent yn gyfarwydd â'r polisi diogelu, a gwnaethant siarad yn hyderus am y gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder am blentyn.

Mae'r staff yn rhoi polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith, ac mae'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu wedi'i haddasu, yn unol â'r canllawiau yn ymwneud â phandemig COVID-19.  Caiff gwiriadau diogelwch rheolaidd eu cynnal, megis ymarferion tân ac archwiliadau dyddiol o'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant.

Mae'r staff yn hyrwyddo arferion iach a hydradu da, drwy sicrhau bod dŵr ar gael i'r plant drwy'r dydd. Maent yn dilyn bwydlen bwyta'n iach sydd wedi'i chymeradwyo.  Fodd bynnag, roedd y fwydlen yn cyfeirio at ganllawiau ar faeth yn Lloegr. Mae'r staff yn helpu'r plant i olchi eu dwylo pan fo hynny'n briodol, megis wrth gyrraedd y lleoliad, ar ôl defnyddio'r toiled a chyn bwyta.

Mae'r staff wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant, ac roedd yn amlwg eu bod yn adnabod ei gilydd yn dda a'u bod yn gyfarwydd â bywydau cartref y plant. Gwelsom y staff yn gofyn i blentyn am ei barti pen-blwydd, a gynhaliwyd y diwrnod blaenorol, gan ofyn beth a gawsant i'w fwyta, ac a oedd y gacen pen-blwydd yn flasus. Roedd y staff yn rhoi amser i'r plant ddelio ag emosiynau heriol, gan dynnu eu sylw'n llwyddiannus a'u cefnogi i adnabod a chydnabod eu teimladau. Mae'r staff yn dangos esiampl dda;  gan sicrhau bod lleisiau'r plant bob amser yn cael eu clywed, ac y gwrandewir arnynt.

Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad y plant drwy gydnabod eu cyflawniadau a chynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Maent yn awyddus i sicrhau bod y plant yn dysgu, ac yn ystyried bod y plant wrth wraidd popeth a wnânt. Caiff gweithgareddau eu cynllunio ar sail diddordebau unigol y plant, ac mae’r cynllun ar gyfer pob plentyn wedi eu harddangos yn glir ar y wal, gan alluogi pob aelod o'r staff i gyfrannu atynt. Er enghraifft, roedd gan un plentyn ddiddordeb brwd mewn tractorau, ac roedd y staff wedi defnyddio hyn fel man cychwyn wrth gynllunio ei weithgareddau. Er enghraifft, wrth ddysgu cyfrif, roedd y staff wedi darparu tractorau o liwiau gwahanol i'r plentyn eu cyfrif.

Caiff y rhieni y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd eu plentyn. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn gwybod beth roedd eu plant wedi bod yn ei wneud bob dydd, a'u bod yn gwybod pa sgiliau y byddent yn canolbwyntio ar eu meithrin nesaf. Drwy gydol y dydd roedd y staff yn rhannu lluniau â'r rhieni, a oedd yn eu helpu i weld sut roedd eu plentyn yn dysgu. Mae gan y staff gynlluniau i ddatblygu'r ffordd y maent yn cynllunio gweithgareddau ymhellach, ar ôl iddynt ymgorffori'r 'dull chwilfrydedd' yn llawn.

| Yr Amgylchedd | Nid Oes Angen Rhoi Gradd |
|---|---|

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da, sy'n darparu lle diogel a chyfforddus i'r plant ymlacio a dysgu. Mae'r fynedfa'n cael ei chadw ar glo, gyda chloch i'r rhieni ei chanu i gael sylw. Mae asesiadau risg manwl yn sicrhau bod y staff yn gwybod sut i gadw'r plant yn ddiogel. Cânt eu hadolygu yn ôl yr angen ac maent yn cynnwys gwybodaeth benodol am COVID-19.

Mae'r staff a'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn rhoi cynlluniau ar waith i ddarparu amgylchedd ysgogol ac ysbrydoledig i'r plant. Mae adnoddau newydd wedi cael eu prynu ac mae cynlluniau'r ystafelloedd yn cael eu newid i annog y plant i archwilio eu hamgylchedd. Mae adnoddau naturiol a rhai wedi'u hailgylchu yn cael eu cyflwyno yn yr ardaloedd chwarae, gan olygu eu bod yn symud i ffwrdd oddi wrth liwiau llachar ac adnoddau plastig.

Mae'r holl gyfleusterau wedi'u lleoli ar un llawr, ac mae gan y plant fynediad uniongyrchol i'r ardaloedd chwarae awyr agored mawr, sy'n rhoi'r rhyddid iddynt redeg a chwarae. Mae toiledau a chyfleusterau newid ar wahân ar gyfer pob ystafell, ynghyd ag ardal dawel i'r plant orffwys; mae ystafell gysgu ar wahân ar gael i'r babanod. Mae cynlluniau ar waith i baratoi'r ardd gudd er mwyn gwella cyfleoedd chwarae'r plant yn yr awyr agored ymhellach.

Mae'r arweinwyr yn darparu adnoddau rhesymol i'r plant sy'n apelio atynt ac yn ennyn eu diddordeb. Roedd yr eitemau a oedd ar gael yn lliwgar ac yn addas i gam datblygu'r plant. Roedd yr adnoddau'n helpu'r plant i wneud cynnydd; roeddent yn mwynhau edrych ar lyfrau a darllen straeon yn y wig-wam.

Roedd y staff yn dilyn system gadarn i sicrhau bod y teganau'n cael eu cadw'n lân ac mewn cyflwr da. Mae cyfleoedd chwarae â thywod a dŵr bellach ar gael yn yr awyr agored, a byddant ar gael i'w defnyddio bob amser pan fydd hynny'n ddiogel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn gweithio i addasu'r amgylchedd ffisegol er mwyn canolbwyntio ar ddeunyddiau naturiol wedi'u hailgylchu, lliwiau niwtral ac adnoddau pren. Anogant y plant i chwarae ag eitemau cartref a bric-a-brac megis nytiau a bolltau, cansenni garddio, hesian a chylchoedd cyrtens. Gwelsom restr o eitemau a brynwyd yn ddiweddar a fydd yn eu helpu i fynd ar drywydd hyn.

| Arwain a Rheoli | Nid Oes Angen Rhoi Gradd |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi cyfleu eu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth yn dda, ac maent yn cefnogi'r staff yn llawn i gyflawni eu rolau. Mae'r staff wedi cael yr adnoddau i'w galluogi i gyflawni'r nodau a bennwyd. Mae eu rolau wedi'u diffinio'n glir ac mae pob aelod o'r staff yn ymfalchïo yn ei waith. Mae gwahanol gyfleoedd hyfforddi wedi golygu bod y staff yn teimlo eu bod wedi datblygu yn eu rolau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a bod dulliau newydd o weithio yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd chwarae'r plant, yn ogystal â'u boddhad eu hunain yn eu swydd.

Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru, ac mae unrhyw newidiadau wedi cael eu rhannu â'r staff. Mae'r ddau berson â chyfrifoldeb ar gael i gynnig arweiniad a chymorth i'r staff pan fo angen. Maent yn awyddus i gydweithio fel tîm i roi newidiadau ar waith er gwell.  Cadarnhaodd y personau â chyfrifoldeb fod yr holl ddogfennau ar gael i ddangos bod y broses recriwtio yn gadarn, ac yn cynnwys goruchwyliaeth ac arfarniad blynyddol. Mae gan bob aelod o'r staff wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae cyrsiau hyfforddiant cymorth cyntaf, Diogelu a Hylendid Bwyd Sylfaenol wedi'u cwblhau, ac roedd rhai tystysgrifau wedi'u harddangos a oedd yn dangos eu bod yn gyfredol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn monitro ac yn gwerthuso'r gwasanaeth yn effeithiol, ac roedd adroddiad manwl ar ansawdd y gofal wedi'i gwblhau. Maent hefyd wedi cynllunio cynllun gweithredu manwl, sy'n nodi meysydd penodol i'w gwella ac amserlenni ar gyfer cwblhau. Mae cynlluniau hirdymor ystyrlon ar gyfer gwelliannau hefyd ar waith, megis prynu adnoddau newydd a datblygu'r ardaloedd awyr agored.

Mae'r rhai sy'n rhedeg y gwasanaeth yn rhoi adborth, cymorth ac arweiniad rheolaidd i'r staff. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n hyderus i fynd at y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth. Mae arsylwadau cymheiriaid wedi dechrau, er mwyn annog y staff i gefnogi ei gilydd i wella arferion.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol ac ystyrlon â'r rhieni. Maent wedi rhoi system ar waith lle y gall y rhieni gael gafael ar wybodaeth a lluniau o'r hyn y mae eu plant wedi ei gyflawni yn ystod y dydd. Mae gweithiwr allweddol eu plentyn yn rhoi gwybodaeth ysgrifenedig fanwl iddynt am ddiwrnod eu plentyn. Gall y rhieni gofnodi gwybodaeth am eu plentyn gartref, os ydynt yn dymuno ei rhannu â'r staff. Hefyd, caiff adroddiad manwl ar gynnydd ei anfon gartref yn rheolaidd. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod wedi cael diweddariadau rheolaidd am y ffordd roedd y gwasanaeth yn gobeithio gweithredu yn ystod pandemig COVID-19, a'u bod yn teimlo bod y newidiadau a roddwyd

ar waith yn ystod y cyfnod hwn yn well, megis gollwng y plant wrth y drws. Maent wedi gweld nad yw'r plant yn cynhyrfu gymaint, am fod y broses yn cymryd llai o amser.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Dylai'r rhai sy'n rhedeg y gwasanaeth ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru ar fwyd a maeth ar gyfer lleoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant wrth baratoi prydau a byrbrydau.

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni** |
| --- |

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
| --- | --- |
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth** | |
| --- | --- |
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/07/2021